# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 11 Ionawr 2021

## SL(5)713 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) (Diwygio) 2021

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) 2018, sy'n pennu swm y rhent perthnasol o dan baragraff 36(1)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.

Diben y Rheoliadau hyn yw diwygio swm y 'rhent perthnasol' a ddefnyddir i sbarduno'r rheol gwrthweithio osgoi ym mharagraff 34. Mae'r rheol gwrthweithio osgoi hon wedi'i chynllunio i gyfyngu ar y cyfleoedd i drethdalwyr elwa ar ddau fand cyfradd sero pan roddir les.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio swm y rhent perthnasol a bennir o £9,000 i £13,500 o'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, yn unol â'r codiadau trothwy a ddarperir yn Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020. O ran trafodiadau â dyddiad effeithiol sy'n digwydd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, bydd y swm blaenorol o £9,000 yn dal yn gymwys.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:** 22 Rhagfyr 2020

**Yn dod i rym ar:**